

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 a'r
Ffordd Gyswllt (Travellers' Rest,
Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder
30 MYA Dros Dro) 2018

The A40 Trunk Road and Link
Road (Travellers' Rest,
Carmarthenshire) (Temporary 30
MPH Speed Limit) Order 2018

Gwnaed 21 Medi 2018

Made 21 September 2018

Yn dod i rym 1 Hydref 2018

Coming into force 1 October 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o yr A40, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'r ffordd gyswllt oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the A40 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road and link road should be restricted because of the likelihood of danger to the public.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Title, Interpretation and Commencement

1. Enw'r Gorchymyn Cefnffordd yr A40 a'r Ffordd Gyswllt (Travellers' Rest, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 30 MYA Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 1 Hydref 2018.

1. The title of this Order is the A40 Trunk Road and Link Road (Travellers' Rest, Carmarthenshire) (Temporary 30 MPH Speed Limit) Order 2018 and it comes into force on 1 October 2018.

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 1 Hydref 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaunr;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a'r ffordd gyswllt a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

2. (1) In this Order:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984 Act(2) or in connection with the works giving rise to this Order;
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A40 London to Fishguard Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 00:01 hours on 1 October 2018 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order.

Restriction

3. No person may, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 30 miles per hour on the lengths of the trunk road and link road specified in the Schedule to this Order.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

Atal Dros Dro

4. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

Cymhwyso

5. (1) Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y'i dangosir gan arwyddion traffig.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

21 Medi 2018

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

1. Y darnau o ffordd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin Cyffordd Travellers' Rest a'r ffordd gyswllt i Farchnad Da Byw Caerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 67 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd gyswllt tua'r de i drosbont Travellers' Rest hyd at bwynt 543 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

2. Y darn o'r ffordd gyswllt i drosbont Travellers' Rest sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r ffordd gyswllt i Farchnad Da Byw Caerfyrddin i gyfeiriad y dwyrain am 200 metr.

Suspension

4. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the relevant lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order are suspended during such times as the restriction specified in article 3 is in operation.

Application

5. (1) The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Duration of this Order

6. The maximum duration for this Order shall be 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

21 September 2018

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

SCHEDULE

1. The lengths of the westbound off and on slip roads of Travellers' Rest Junction and link road to Carmarthen Livestock Market that extends from a point 67 metres north of the centre-point of its junction with the southern link road to Travellers' Rest over-bridge to a point 543 metres west of the centre-point of the said junction.

2. The length of the link road to Travellers' Rest over-bridge which extends from its junction with the link road to Carmarthen Livestock Market in an easterly direction for 200 metres.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 A'R
FFORDD GYSWLLT (TRAVELLERS' REST,
SIR GAERFYRDDIN) (TERFYN CYFLYMDER
30 MYA DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd ar gefnffordd yr A40 a'r ffordd gyswllt gyffiniol ddeheuol yn Travellers' Rest yn Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn fydd gosod terfyn cyflymder 30 mya dros dro ar y darnau o'r gefnffordd a'r ffordd gyswllt a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Bydd y cyfyngiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol o 00:01 o'r gloch ar 1 Hydref 2018 hyd 23:59 o'r gloch ar 31 Mawrth 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/Gorchmynion Traffig Dros Dro/2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

1. Y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin Cyffordd Travellers' Rest a'r ffordd gyswllt i Farchnad Da Byw Caerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 67 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd gyswllt tua'r de i drosbont Travellers' Rest hyd at bwynt 543 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

2. Y darn o'r ffordd gyswllt i drosbont Travellers' Rest sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r ffordd gyswllt i Farchnad Da Byw Caerfyrddin i gyfeiriad y dwyrain am 200 metr.

**THE A40 TRUNK ROAD AND LINK ROAD
(TRAVELLERS' REST, CARMARTHENSHIRE)
(TEMPORARY 30 MPH SPEED LIMIT) ORDER
2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary because of the likelihood of danger to the public on the A40 trunk road and adjoining southerly link road at Travellers' Rest in the County of Carmarthenshire.

The effect of the Order will be to temporarily impose a 30 mph speed limit on the lengths of the trunk road and link road specified in the Schedule to this Notice.

The temporary restriction, which will be signed accordingly, will operate from 00:01 hours on 1 October 2018 until 23:59 hours on 31 March 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

SCHEDULE

1. The lengths of the westbound off and on slip roads of Travellers' Rest Junction and link road to Carmarthen Livestock Market that extends from a point 67 metres north of the centre-point of its junction with the southern link road to Travellers' Rest over-bridge to a point 543 metres west of the centre-point of the said junction.

2. The length of the link road to Travellers' Rest over-bridge which extends from its junction with the link road to Carmarthen Livestock Market in an easterly direction for 200 metres.

